# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 8 Gorffennaf 2014** |
| Amser: | **09.00 - 11.03** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_400000_08_07_2014&t=0&l=en

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar AC (Cadeirydd)**<br>**William Graham AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Alun Ffred Jones AC**<br>**Julie Morgan AC**<br>**Jenny Rathbone AC**<br>**Aled Roberts AC**<br>**Sandy Mewies AC** |
| Tystion: | **Peter Higson, BCUHB**<br>**Alun Jones, HIW**<br>**Geoff Lang, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**<br><br>**Grace Lewis-Parry, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**<br><br>**Trevor Purt, BCUHB**<br>**Dave Thomas, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Mike Usher, Swyddfa Archwilio Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Meriel Singleton (Ail Clerc)** |

Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)
Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)

---

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o’r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

## 2 Papurau i’w nodi

2.1 Nodwyd y papurau.

2.1 Ymdrin â’r Heriau Ariannol sy’n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru: Llythyr gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol Llywodraeth Leol a Chymunedau (1 Gorffennaf 2014)

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 4 Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Papur briffio gan Swyddfa Archwilydd Cyffredinol Cymru

4.1 Cyflwynodd swyddogion o Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wybodaeth i'r Pwyllgor am yr adroddiad ar y cyd a gyhoeddwyd ar 4 Gorffennaf 2014.

## 5 Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Y wybodaeth ddiweddaraf am adroddiadau

5.1 Holodd y Pwyllgor swyddogion o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynglŷn â'u trefniadau llywodraethu, sef Dr Peter Higson, Cadeirydd, yr Athro Trevor Purt, Prif Weithredwr, Geoff Lang, Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Sylfaenol, Iechyd Cymunedol ac Iechyd Meddwl, a Grace Lewis-Parry, Cyfarwyddwr Llywodraethu a Chyfathrebu.
5.2 Cytunodd Geoff Lang i anfon gwybodaeth bellach ynghylch y canlynol:

- Cyfanswm yr achosion yn ymwneud â diogelwch cleifion yn 2012-13 a sut y mae'r data hwn yn cymharu â'r blynyddoedd blaenorol;

- Y meysydd clinigol y mae Uned Gyflawni Llywodraeth Cymru yn asesu eu perfformiad.

## 6 Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

6.1 Am fod amser yn brin, cytunodd yr Aelodau i drafod y dystiolaeth a gafwyd yn breifat ar ddechrau'r cyfarfod ar 15 Gorffennaf 2014.